**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced**

366/51

# DRAMA AC ASTUDIAETHAU'R THEATR

## DR6: Uned 6 Testun mewn Cyd-destun (Synoptig)

P.M. DYDD MAWRTH, 27 Mehefin 2006

(2½ awr)

### DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **ddau** gwestiwn:

Yn **Adran A** atebwch rannau *(a)* **a** *(b)* ar **un** o'r ddau destun a astudiwyd gennych ar gyfer y papur hwn.

Yn **Adran B** atebwch y cwestiwn ar y testun **arall** a astudiwyd gennych ar gyfer y papur hwn.

Dylai un o'r ddau destun fod cyn-1900 (cwestiynau 1-3 ym mhob adran) a dylai'r llall fod ôl-1900 (cwestiynau 4-7 ym mhob adran).

Mae rhan *(a)* Adran A yn werth 20 marc.
Mae rhan *(b)* Adran A yn werth 30 marc.
Mae Adran B yn werth 40 marc.

Cynghorir chi i rannu eich amser yn unol â hynny, gan adael un awr o leiaf ar gyfer Adran B.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Atgoffir chi ei bod yn angenrheidiol i chi ysgrifennu Cymraeg da a chyflwyno eich atebion yn drefnus.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

## ADRAN A

*Atebwch rannau (a)* **a** *(b) ar* **un** *o'r ddau destun a astudiwyd gennych.*

Rhan *(a)* Potensial actio, technegol a pherfformio i'w trafod o safbwynt actor a/neu gynllunydd technegol.

Rhan *(b)* Elfennau thematig a strwythur dramatig.

Dylech gyfeirio at eich profiadau ymarferol yn y cwrs yn gyffredinol (naill ai trwy actio neu sgiliau cynhyrchu technegol), lle ystyriwch y bydd y fath wybodaeth yn eich cynorthwyo i ateb y cwestiwn.

**1.** ***OIDIPOS FRENIN***

Edrychwch eto ar y man lle mae Tiresias yn dod i mewn, hyd at y pwynt ar ddiwedd ei araith lle mae'n dweud wrth Oidipos y bydd ei gwymp yn aruthrol.

*(a)* Dadansoddwch y ffyrdd y mae Sophocles yn creu tensiwn yn y darn hwn a rhowch eich syniadau ar gyfer llwyfannu'r darn. [20]

*(b)* Sut mae Sophocles yn dramateiddio thema dallineb yn *Oidipos Frenin*? Efallai y byddwch yn dymuno canolbwyntio ar ddwy neu dair golygfa allweddol yn eich ateb. [30]

**2.** ***HAMLET***

Edrychwch eto ar Act III Golygfa 1 o ddiwedd ymson Hamlet (Aha! Y brydferthocaf Offelia! Riain deg, yn eich gweddïau gwiw, cofiwch 'mhechodau oll.), hyd at y man lle mae'r Brenin a Poloniws yn dod i mewn.

*(a)* Dadansoddwch y ffyrdd y mae Shakespeare yn creu tensiwn yn y darn hwn a rhowch eich syniadau ar gyfer llwyfannu'r darn. [20]

*(b)* Sut mae Shakespeare yn dramateiddio thema gwallgofrwydd yn *Hamlet*? Efallai y byddwch yn dymuno canolbwyntio ar ddwy neu dair golygfa allweddol yn eich ateb. [30]

**3.** ***Y GELLI GEIRIOS***

Edrychwch eto ar ddechrau Act 1, hyd at y pwynt lle mae Dooniasha'n dweud ei bod yn mynd i lewygu.

*(a)* Dadansoddwch y ffyrdd y mae Chekov yn creu tensiwn yn y darn hwn a rhowch eich syniadau ar gyfer llwyfannu'r darn. [20]

*(b)* Sut mae Chekov yn dramateiddio thema amser yn *Y Gelli Geirios*? Efallai y byddwch yn dymuno canolbwyntio ar ddwy neu dair golygfa allweddol yn eich ateb. [30]

**4.** ***MAM GWROLDEB A'I PHLANT***

Edrychwch eto ar ddechrau Golygfa Tri, hyd at y pwynt lle mae Yvette yn canu Cân y Cyfeillachu.

*(a)* Dadansoddwch y ffyrdd y mae Brecht yn creu tensiwn yn y darn hwn a rhowch eich syniadau ar gyfer llwyfannu'r darn. [20]

*(b)* Sut mae Brecht yn dramateiddio thema rhyfel yn *Mam Gwroldeb a'i Phlant*? Efallai y byddwch yn dymuno canolbwyntio ar ddwy neu dair golygfa allweddol yn eich ateb. [30]

**5.** ***Y CROCHAN***

Edrychwch eto ar ddiwedd Act 3 o'r pwynt lle mae Danforth yn dweud wrth Mary Warren: 'Gynnau chdi dy hun oedd yn dioddef. Rwan 'rwyt ti'n peri i eraill ddioddef. Ble ce'st ti'r gallu yma?', hyd at ddiwedd yr olygfa.

*(a)* Dadansoddwch y ffyrdd y mae Miller yn creu tensiwn yn yr olygfa hon a rhowch eich syniadau ar gyfer llwyfannu'r darn. [20]

*(b)* Sut mae Miller yn dramateiddio thema ofn yn *Y Crochan*? Efallai y byddwch yn dymuno canolbwyntio ar ddwy neu dair golygfa allweddol yn eich ateb. [30]

**6.** ***OH WHAT A LOVELY WAR***

Edrychwch eto ar ganol Act 2 o'r pwynt lle mae'r milwyr Gwyddelig yn dawnsio jig, hyd at y pwynt lle mae Mrs. Pankhurst yn dod i mewn.

*(a)* Dadansoddwch y ffyrdd y mae Littlewood yn creu tensiwn yn y darn hwn a rhowch eich syniadau ar gyfer llwyfannu'r darn. [20]

*(b)* Sut mae Littlewood yn dramateiddio thema rhyfel yn *Oh What a Lovely War*? Efallai y byddwch yn dymuno canolbwyntio ar ddwy neu dair golygfa allweddol yn eich ateb. [30]

**7.** ***TŶ AR Y TYWOD***

Edrychwch eto ar ddiwedd Act 3 o'r man lle mae Gŵr y Tŷ'n dweud: 'Pob erw... a phawb yn ufuddhau... a dydw i ddim yn mynd i edrych ar ryw ewach bach run fath â chdi yn sefyll...', hyd at ddiwedd y ddrama.

*(a)* Dadansoddwch y ffyrdd y mae Parry'n creu tensiwn yn y darn hwn a rhowch eich syniadau ar gyfer llwyfannu'r darn. [20]

*(b)* Sut mae Parry'n dramateiddio thema'r frwydr rhwng yr hen a'r newydd yn *Tŷ ar y Tywod*? Efallai y byddwch yn dymuno canolbwyntio ar ddwy neu dair golygfa allweddol yn eich ateb. [30]

## ADRAN B

*Atebwch* **un** *cwestiwn o'r adran hon ar y testun* **arall** *a astudiwyd gennych.*

Mae'r adran hon yn asesu eich gallu i:

- ymchwilio i destunau dramatig a chyd-destunau damcaniaethol, eu dadansoddi a'u gwerthuso, gan gynnwys amgylchiadau hanesyddol a diwylliannol, amodau a chonfensiynau perfformio;
- nodi'r berthynas rhwng y testun a'r perfformiad.

Dylech gyfeirio at eich profiadau ymarferol yn y cwrs yn gyffredinol (naill ai trwy actio, sgiliau technegol neu ymweliadau â'r theatr), lle ystyriwch y bydd y fath wybodaeth yn eich cynorthwyo i ateb y cwestiwn.

**1. *OIDIPOS FRENIN***

Sut y byddai eich gwybodaeth am y ffordd y perfformiwyd *Oidipos Frenin* yn wreiddiol yn dylanwadu ar gynhyrchiad y byddech chi'n ymgymryd ag ef yn y theatr heddiw? [40]

**2. *HAMLET***

Sut y byddai eich gwybodaeth am y ffordd y perfformiwyd *Hamlet* yn wreiddiol yn dylanwadu ar gynhyrchiad y byddech chi'n ymgymryd ag ef yn y theatr heddiw? [40]

**3. *Y GELLI GEIRIOS***

Sut y byddai eich gwybodaeth am y ffordd y perfformiwyd *Y Gelli Geirios* yn wreiddiol yn dylanwadu ar gynhyrchiad y byddech chi'n ymgymryd ag ef yn y theatr heddiw? [40]

**4. *MAM GWROLDEB A'I PHLANT***

Sut y byddai eich gwybodaeth am y ffordd y perfformiwyd *Mam Gwroldeb a'i Phlant* yn wreiddiol yn dylanwadu ar gynhyrchiad y byddech chi'n ymgymryd ag ef yn y theatr heddiw? [40]

**5. *OH WHAT A LOVELY WAR***

Sut y byddai eich gwybodaeth am y ffordd y perfformiwyd *Oh What a Lovely War* yn wreiddiol yn dylanwadu ar gynhyrchiad y byddech chi'n ymgymryd ag ef yn y theatr heddiw? [40]

**6. *Y CROCHAN***

Sut y byddai eich gwybodaeth am y ffordd y perfformiwyd *Y Crochan* yn wreiddiol yn dylanwadu ar gynhyrchiad y byddech chi'n ymgymryd ag ef yn y theatr heddiw? [40]

**7. *TŶ AR Y TYWOD***

Sut y byddai eich gwybodaeth am y ffordd y perfformiwyd *Tŷ ar y Tywod* yn wreiddiol yn dylanwadu ar gynhyrchiad y byddech chi'n ymgymryd ag ef yn y theatr heddiw? [40]